# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 12FED MEHEFIN, 2023**

**I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 2 Mehefin 2023)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | Gareth Tudor Jones |
| Linda Ann Jones | Edgar Wyn Owen |
| Rheinallt Puw | Huw Rowlands |
| Elfed Williams | Alan Jones Evans |
| Gwynfor Owen | Arwyn Herald Roberts |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Eryl Jones-Williams | Gareth Williams |
| Angela Russell | John Brynmor Hughes |
| Anwen J. Davies | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2023 /24

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2023 /24

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 24 Hydref 2022 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG 5 - 20

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

1. 21 Ebrill 2023
2. 10 Chwefror 2023
3. 23 Ionawr 2023
4. 23 Tachwedd 2022

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 24-10-22**

**Presenoldeb: Cadeirydd: Cyng Annwen Hughes**
**Is-gadeirydd: Cyng Elfed Williams**

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Eryl Jones-Williams, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Rheinallt Puw, Angela Russell a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd ) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Arwyn Herald Roberts a Huw Rowlands

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 27 Mehefin 2022 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU**

Derbyniwyd er gwybodaeth gofnodion yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 27 Mehefin 2022 a 29 Gorffennaf 2022

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:15am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 21-04-23

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Annwen Hughes (Cadeirydd), Elfed Williams a Huw Rowlands**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Nicola Williams (Swyddog Trwyddedu – arsylwi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Cariad Gelato Ltd, The Kiosk, Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd LL49 9LP**

**Eraill a wahoddwyd:**

- Elizabeth Shone – Cariad Gelato
- Olivia O'Neill - Cariad Gelato
- David W Lindsay – Cariad Gelato
- Cyng Gwilym Jones – Aelod Lleol
- Elizabeth Williams (SwyddogTrwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer kiosg hufen ia gyda rhywfaint o fyrddau allanol. Eglurwyd bod Cariad Gelato yn fusnes teuluol sydd yn cynhyrchu a gwerthu hufen ia wedi ei wneud mewn modd Eidalaidd. Roedd yr ymgeisydd yn gofyn am ganiatáu gwerthiant alcohol ochr yn ochr ai fusnes creiddiol, gan alluogi cwsmeriaid i fwynhau diod alcohol oddi fewn i ardal eistedd allanol benodol wedi ei ddiffinio; neu i ganiatáu cwsmeriaid i brynu alcohol ar gyfer ei yfed i ffwrdd oddi ar yr eiddo.

Gofynnwyd am yr hawl i werthu alcohol o 12 y prynhawn hyd at 21:00 bob dydd - yr eiddo yn agored i werthu hufen ia rhwng 10 a 21:00 bob dydd.

Cyfeiriwyd at oriau arfaethedig safonol ar gyfer oriau agor ac oriau gwerthiant alcohol ar ac oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod gwrthwynebiadau i'r cais wedi eu derbyn gan yr Aelod Lleol a Chyngor Tref Porthmadog oedd yn cyfeirio at bryderon mewn perthynas ar Amcanion Trwyddedu o Ddiogelwch y Cyhoedd a Diogelu plant rhag niwed. Amlygwyd bod Heddlu Gogledd Cymru, yn dilyn cyfarfod gyda'r ymgeisydd, wedi cadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau gwrthwynebiad i'r cais. Roeddynt yn fodlon fod sicrwydd wedi ei roi fod ethos y busnes yn parhau i ganolbwyntio ar gynhyrchu a gwerthu hufen ia Eidalaidd i deuluoedd, yn hytrach na phwyslais ar werthu alcohol.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r ymgeiysdd, yr Heddlu a'r Swyddog Trwyddedu ar y 7fed o Fawrth 2023 i geisio cyfarch pryderon yr Aelod Lleol a'r Cyngor Tref. Amlygwyd bod yr ymgeisydd yn barod i gyfaddawdu gan gytuno,

- I werthu alcohol ar ôl 17:30 yn unig, gan mai dyma'r cyfnod mae masnachu i deuluoedd a phlant yn dod i ben
- Alcohol i'w werthu gyda phwdinau / hufen ia yn unig ar ôl 17:30
- Dim gwerthiant alcohol oddi ar yr eiddo
- Gweini alcohol i'w gyfyngu i'r ardal 'decking' yn union o flaen cownter gweini'r Kiosg yn unig. Ni fydd alcohol yn cael ei yfed ar fyrddau ar y palmant

Roedd yr Adran Trwyddedu yn argymell caniatau'r cais yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, a'r cytundeb cyfaddawdu a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd:

- Bod manylion yr adroddiad yn gywir
- Bod dau gais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TENS) wedi eu gwneud ar gyfer Sul y Mamau a Phenwythnos y Pasg lle cynhaliwyd digwyddiadau arbennig i ddathlu. Ni chafwyd unrhyw broblemau ac roedd y ddau ddigwyddiad yn llwyddiannus
- Nad oedd bwriad colli ffocws ar brif amcan y busnes o werthu hufen ia
- Bod dymuniad i drefnu digwyddiadau arbennig yn cynnig pwdinau a chrempogau
- Nad oedd bwriad gwerthu alcohol heb fwyd
- Bod bwriad i ymestyn diwrnod gwaith - gwneud defnydd o nosweithiau braf yr haf a chynnig gwydr o alcohol i oedolion tra bod plant yn cael hufen ia

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r math o alcohol fydd yn cael ei werthu, nodwyd y byddai cwrw lleol Mŵs Piws yn cael ei werthu ynghyd a phrosecco a choctels. Mewn

ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r oriau agor, nodwyd y byddai hyn yn ddibynnol ar y tywydd a phrysurdeb y dref.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

**Cyng. Gwilym Jones (Aelod Lleol)**

- Ei fod yn pryderu am normaleiddio alcohol
- Ei fod wedi ystyried yn fanwl cynigion y cyfaddawd
- Ei fod yn barod i dynnu ei wrthwynebiad yn ôl ar yr amod bydd y sefyllfa yn cael ei monitro gan yr Heddlu a'r Adran Trwyddedu

**Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)**

- Bod trafodaeth wedi ei gynnal gyda'r ymgeisydd a bod yr ymgeisydd wedi ymateb i bob pryder a godwyd

d) Wrth gloi ei achos, nododd yr ymgeisydd nad oedd bwriad tarfu ar y gymuned – byddai unrhyw farn neu ymddygiad negyddol yn amharu ar y busnes. Ystyriwyd fod cefnogaeth y gymuned leol yn bwysig iawn i'r fenter ac nid oedd eisiau torri'r berthynas dda honno – nid oedd eisiau i unrhyw beth amharu ar enw da y busnes sydd eisoes wedi sefydlu yn lleol.

Ategodd y Rheolwr Trwyddedu ei bod yn deall y pryderon a gyflwynwyd o ysytired bod plant a theuluoedd yn ganolog i lwyddiant y busnes. Atgoffwyd pawb bod y Ddeddf yn caniatáu i'r drwydded gael ei hadolygu os nad yw'r ymgeisydd yn cadw at ei air. Cadarnhaodd hefyd nad oedd unrhyw broblemau wedi eu derbyn yn ystod y ddau ddigwyddiad TENS.

dd) Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu trwydded fel a ganlyn:**

1. **Oriau agor**
   **Sul-Sadwrn: 10:00 – 21:30**

2. **Cyflenwi alcohol i yfed ar yr eiddo**
   **Sul-Sadwrn: 17:30 – 21:00**

3. **Alcohol i'w weini gyda phwdinau a hufen iâ wedi eu prynu o'r eiddo yn unig**

4. **Alcohol  i'w weini wrth flaen y siop yn unig lle mae'r 'decking' yn unig.**

5. **Ymgorfforir y materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded.**

**Rhesymau**

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** ni chyflwynwyd tystiolaeth o broblemau mewn perthynas â'r eiddo. Er nad oedd gan yr heddlu dystiolaeth i gyfiawnhau gwrthwynebu'r cais,  bu trafodaethau rhwng yr ymgeisydd a'r Heddlu a Swyddogion Trwyddedu i drafod pryderon a godwyd ac fel canlyniad roedd yr ymgeisydd wedi addasu'r cais.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus,** roedd yr aelod lleol wedi mynegi pryderon oherwydd bod bwriad i  drwyddedu llecyn tu allan i gwrtil yr adeilad oedd yn agos i gyffordd brysur ar y stryd fawr.  Fel canlyniad roedd yr ymgeisydd wedi addasu'r cais i eithrio'r darn yma o'r eiddo.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus,** ni chyflwynwyd tystiolaeth yn gysylltiedig â'r eiddo

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** roedd yr Aelod Lleol wedi mynegi pryderon y byddau caniatáu gwerthu alcohol yn annog a normaleiddio yfed alcohol ar eiddo sydd ddim yn addas ar gyfer y bwriad.  Hefyd roedd yr eiddo yn agos iawn at barc chwarae plant. Roedd yr ymgeisydd wedi addasu'r cais mewn ymateb i'r pryderon hyn gan gyfyngu gwerthiant alcohol o ran amser, ei gyfyngu i'r eiddo ynunig, addasu'r lleoliad a chyfyngu ei weini i fod gyda phwdinau/hufen iâ.

Ar nodyn cyffredinol nodwyd fod yr Ymgeisydd eisoes wedi defnyddio Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro ar ddau achlysur ac nad oedd unrhyw dystiolaeth fod y digwyddiadau hynny wedi achosi unrhyw broblemau o safbwynt yr egwyddorion trwyddedu.

Roedd yr Is-bwyllgor yn falch o weld y cyd-weithredu gan bawb yn yr achos yma a bod yr ymgeisydd wedi ystyried y sylwadau a gyflwynwyd ac wedi bod yn fodlon cyfaddawdu.  O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 11:30

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 10-02-23

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Annwen Hughes (Cadeirydd), Linda Ann Jones ac Elfed Williams**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr Adrian Roberts (Preswylydd Lleol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Siop Hwylus, Brook House, Stryd Fawr, Llanberis, LL55 4SU**

**Eraill a wahoddwyd:**

- Mr Thavachsalvam (ymgeisydd)
- Mr Ian Rushton (cynrychiolydd yr ymgeisydd)
- Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)
- Heather Jones (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)
- Cynghorydd Kim Jones (Aelod Lleol)
- Mr Dei Tomos (Clerc Cyngor Cymuned Llanberis)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer menter busnes newydd mewn eiddo sydd ar hyn o bryd yn sefyll yn wag. Eglurwyd mai'r bwriad yw addasu a gwella'r adeilad er pwrpas bod yn siop hwylus, yn gwerthu amrywiaeth o nwyddau gan gynnwys alcohol.

Cyfeiriwyd at oriau arfaethedig safonol ar gyfer gwerthiant alcohol oddi ar yr eiddo o 06:00 tan 23:00 pob diwrnod yr wythnos; er bod bwriad wedi ei nodi fel amser ansafonol i werthu alcohol o'r siop o 06:00 tan 02:00 drannoeth, bob diwrnod o'r 1af o Ebrill tan 30ain o Fedi. Cyfeiriwyd at ohebiaeth a ddaeth i law gan gynrychiolydd yr ymgeisydd yn nodi cynnig i leihau oriau gwerthu alcohol o 06:00 tan 23:00 (hyd 00:00 rhwng 1af o Ebrill a 30ain o Fedi), fyddai yn cyfarch rhai o'r pryderon.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod gwrthwynebiadau i'r cais wedi eu derbyn gan aelod o'r cyhoedd, y Cyngor Cymuned a'r Aelod Lleol oedd yn cyfeirio at bryderon mewn perthynas ar Amcanion Trwyddedu o Atal Trosedd ac Anrhefn, Niwsans Cyhoeddus, Diogelwch y Cyhoedd a Diogelu plant rhag niwed. Amlygwyd bod Heddlu Gogledd Cymru yn cwestiynu'r oriau estynedig sylweddol ar gyfer gwerthu alcohol am hanner y flwyddyn fel amseroedd ansafonol ar y cais ac roedd y Gwasanaeth Tân yn nodi na fu'n bosib asesu cydymffurfiaeth gyda darpariaethau gofynion tân gan nad oedd gwybodaeth ddigonol ynglŷn â pherchnogaeth y safle.

Er y cynnig gan gynrychiolydd yr ymgeisydd i leihau'r oriau ansafonol, argymhellwyd i'r Pwyllgor geisio eglurder llawn ynglŷn ag oriau ansafonol y cais, sylwadau'r Heddlu a gofynion Deddf Drwyddedu 2003.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r nifer o siopau sydd yn gwerthu alcohol tan hanner nos yng Ngwynedd, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod yr oriau yn amrywio ar draws y Sir. Amlygwyd bod siopau eraill yn Llanberis yn gwerthu alcohol tan 23:00 a/neu 00:00. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â beth yw'r oriau mwyaf cyffredin ar gyfer dechrau gwerthu alcohol, nodwyd bod y Ddeddf wedi cyflwyno cyfundrefn i werthu alcohol am 24awr mewn rhai llefydd, ond mewn cymunedau lleol awgrymir i'r oriau gwerthu alcohol weddu angen y gymuned. Ategwyd mai 08:00 yw'r amser mwyaf cyffredin, ond rhai yn agor am 07:00.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thystiolaeth o drafferthion yn ymwneud ac oriau agor hwyr, nododd yr Heddlu nad oedd tystiolaeth benodol i gysylltu'r eiddo (gwag) â throsedd ag anrhefn yn Llanberis er bod y gwrthwynebwyr yn nodi bod problemau yn bodoli.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd:

- Bod cyfle yma i agor siop hwylus newydd fydd yn gwerthu alcohol fel rhan o'r busnes
- Bod cais wedi ei wneud am brydles tymor hir ar gyfer llawr gwaelod yr eiddo - yr ymgeisydd wedi symud i'r ardal
- Bod yr eiddo mewn cyflwr gwael - bydd yr adeilad yn cael ei adnewyddu
- Bod yr ymgeisydd gyda phrofiad o weithio yn y maes; yn berson cyfrifol
- Bod cynnig i leihau'r oriau gwerthu alcohol i 06:00 - 23:00 heb oriau ansafonol pellach
- Bod yr ymgeisydd eisiau cyd-weithio gyda'r gymuned leol a goresgyn eu pryderon
- Bod yr ymgeisydd yn cytuno gydag amodau'r drwydded
- Bydd TCC o ansawdd yn cael ei osod tu mewn a thu allan i'r adeilad; hyfforddiant yn cael ei gynnig i staff a gweithredu Polisi Her 25
- Unwaith y bydd y brydles wedi ei chytuno bydd modd darparu asesiad tân gyda chynnig i gwrdd â'r Swyddog Tân ar y safle

- Bod bwriad gwerthu alcohol yn gyfrifol
- Tystiolaeth yn awgrymu nad oes problemau trosedd ac anrhefn yn berthnasol i'r eiddo dan sylw

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â dechrau gwerthu alcohol am 06:00, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd mai dyma beth oedd oriau agor y siop gan dderbyn nad oedd galw uchel am alcohol ar yr amser yma. Ategodd bod modd cytuno i ddechrau gwerthu alcohol am 07:00 neu 08:00 os byddai hyn yn fwy ffafriol. Cyfeiriodd at y canllawiau cenedlaethol gan nodi'r hawl i werthu alcohol yn ystod oriau agor y siop, ond yn fodlon ystyried dechrau gwerthu alcohol yn hwyrach os mai dyna ddymuniad yr Is-bwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfiawnhau gwerthu alcohol yn hwyr yn y nos, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd bod y Ddeddf yn caniatáu hyblygrwydd a bod yr ymgeisydd bellach yn cynnig gwerthu alcohol tan 23:00 drwy'r flwyddyn. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â'r oriau ansafonol, cadarnhaodd bod yr ymgeisydd yn tynnu'r oriau ansafonol o'r cais yn ôl, a'r cais bellach yn gofyn am oriau gwerthu alcohol o 06:00 - 23:00, 365 diwrnod y flwyddyn.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

**Heather Jones (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)**

- Bod yr eiddo yn wag ac nad oedd gwybodaeth hanesyddol am ddiogelwch yr adeilad
- Nad oedd y Gwasanaeth Tân mewn sefyllfa i sicrhau y byddai'r cyhoedd yn saff yn yr adeilad
- Rhan o'r adeilad yn unig fydd yn siop. Yr adeilad yn adeilad aml bwrpas gyda Airbnb ar yr ail lawr. Gyda phrydles, angen sicrhau pwy yw'r person cyfrifol.
- Awgrym i'r Is-bwyllgor beidio caniatáu'r drwydded hyd nes bydd ymweliad safle wedi ei drefnu a chyfrifoldebau'r siop a'r llety wedi eu cadarnhau

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd bod gofynion y Gwasanaeth Tân yn wahanol i ofynion trwyddedu. Cadarnhaodd, unwaith y bydd y brydles wedi ei chaniatáu, bydd modd canolbwyntio ar yr adeilad gan drefnu i'r Gwasanaeth Tân ymweld â'r eiddo. Ategodd bod yr ymgeisydd yn berson cyfrifol ac y byddai yn gwneud yn siŵr y bydd yn cyfarch gofynion y Gwasanaeth Tân

**Cyng. Kim Jones (Aelod Lleol)**

- Yn diolch i'r ymgeisydd am ailystyried yr oriau gwerthu alcohol
- Bod y ddwy siop arall yn y pentref yn dechrau gwerthu alcohol am 08:00
- Bod yr eiddo wedi ei leoli gerllaw gwesty i'r digartref ac unigolion bregus - angen sicrhau nad yw'r siop yn cael dylanwad ar y sefyllfa fyddai o ganlyniad yn rhoi pwysau ychwanegol ar y syrjeri leol
- Hapus gyda chyfaddawd i ddechrau gwerthu alcohol am 08:00 - nid yw'n rhesymol agor am 06:00. Croesawu cau am 23:00

Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd bod canllawiau cenedlaethol yn caniatáu hyblygrwydd ar y drwydded ac er yn dymuno agor am 06:00 i werthu papurau newydd, dim bwriad bellach i werthu alcohol ar yr adeg yma. Yr ymgeisydd yn berson cyfrifol, yn fodlon addasu oriau'r drwydded i gyd-fynd ag oriau agor siopau lleol eraill.

**Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)**

- Bod yr oriau gwreiddiol yn achosi pryder, ond yn amlwg, yr ymgeisydd yn barod i addasu – hyn yn newyddion da.

- Wedi edrych am dystiolaeth o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a pherthnasedd yr eiddo. Yr eiddo wedi cau ac felly annheg fyddai ystyried bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn berthnasol i'r eiddo penodol yma.

**Mr Dei Tomos (Clerc Cyngor Cymuned Llanberis)**

- Bod yr oriau gwreiddiol 06:00 – 02:00 yn hollol afresymol
- Cynnig oriau 08:00 - 23:00 i gydymffurfio gyda siopau eraill yn y pentref
- Bod diffyg cofnod o gamymddwyn efallai yn amlygu diffyg heddweision yn yr ardal

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag addasu'r adeilad ac y byddai'n afresymol gofyn i'r ymgeisydd sicrhau bod y llety ar yr ail lawr yn ddiogel, nododd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd canllawiau na rheolau ar gyfer lletyai Airbnb ac nad oedd y mater yn berthnasol i'r gyfundrefn drwyddedu. Ategodd y byddai gan y Gwasanaeth Tân bwerau gorfodi materion diogelwch.

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi eu hachos, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd;

- Bod yr ymgeisydd yn bwriadu cydymffurfio gyda'r holl ofynion
- Yn derbyn bod angen cydweithio gyda thenantiaeth yr Airbnb a'r Gwasanaeth Tân i sicrhau diogelwch y safle
- Bod yr ymgeisydd yn buddsoddi'n sylweddol i'r eiddo - yn fenter newydd fyddai'n troi dolur llygad yn y pentref i fusnes da
- Bod gan yr ymgeisydd brofiad yn y maes a thrwydded bersonol
- Yn derbyn y gofyn i stopio gwerthu alcohol am 23:00 ac yn fwy na bodlon addasu oriau dechrau gwerthu alcohol i 07:00 neu 08:00
- Yn hapus bod y gwrthwynebwyr yn weddol fodlon gyda'r sefyllfa - yr ymgeisydd eisiau gweithio gyda'r gymuned leol
- Nad oedd tystiolaeth bod problemau gwrth gymdeithasol yn berthnasol i'r eiddo presennol - bydd yr eiddo newydd gyda TCC tu mewn a thu allan i'r siop
- Derbyn os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, bydd angen adolygu'r trefniant

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu ei bod yn argymell i'r Is-bwyllgor ystyried yr oriau diwygiedig a'r cynnig i ddechrau gwerthu alcohol yn hwyrach yn y bore i gyd-fynd a siopau lleol eraill.

d) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003.**

1. **Oriau agor: Sul-Sadwrn: 06:00 – 23:00**

2. **Cyflenwi alcohol i yfed oddi ar yr eiddo: Sul-Sadwrn: 08:00 – 23:00**

3. **Ymgorfforir y materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded.**

**Nodyn:**
**Sicrhau cydymffurfio gyda gofynion y Gwasanaeth Tân cyn agor**

**Rhesymau**

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** roedd yr Is-bwyllgor yn nodi'r pryderon a fynegwyd am ymddygiad gwrth gymdeithasol. Serch hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno am broblemau yn tarddu o'r eiddo nag i awgrymu y byddai problemau o'r fath yn codi pe bai'r drwyddedu yn cael ei chaniatáu . Ategwyd bod tystiolaeth yr heddlu bob tro yn ganolog wrth ystyried yr egwyddor yma ac roeddynt wedi cadarnhau nad oedd tystiolaeth ganddynt i wrthwynebu'r cais ac y byddai'n annheg ystyried digwyddiadau o ymddygiad gwrth gymdeithasol fel tystiolaeth yn erbyn yr eiddo yma.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd tystiolaeth y byddai caniatáu'r drwydded yn creu problemau o'r fath. Serch hynny, ystyriwyd sylwadau'r Gwasanaeth Tân yn ofalus a nodwyd eu pryderon. Eglurwyd y byddai'n rhaid i'r ymgeisydd gyd-ymffurfio gyda gofynion penodol a statudol y Gwasanaeth Tân cyn cael agor y busnes. Nid oedd hyn felly yn fater i'r gyfundrefn drwyddedu, ond hoffai'r Is-bwyllgor bwysleisio pwysigrwydd cyd-ymffurfio gyda gofynion o'r fath.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus,** Ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn gysylltiedig â'r eiddo, ond fe ystyriwyd y gofidion a fynegwyd am yr oriau agor cynnar yng nghyd-destun natur yr ardal gyfagos, amseroedd agor siopau cyfagos ac agosatrwydd yr eiddo at yr hostel. Nodwyd bod yr ymgeisydd yn fodlon addasu'r amser cychwyn ac y byddai'n derbyn 08:00 pe bai'r Is-bwyllgor yn ystyried hynny'n briodol. Roedd yr is-bwyllgor o'r farn y byddai caniatáu cyflenwi alcohol o 08:00 ymlaen yn addas ac yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed** nodwyd bod mesurau yn yr Atodlen Weithredol oedd y cyfarch yr egwyddor yma.

Roedd yr Is-bwyllgor yn falch o weld y cyd-weithredu gan bawb yn yr achos yma a bod yr ymgeisydd wedi ystyried y sylwadau a gyflwynwyd ac wedi bod yn fodlon cyfaddawdu. O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 11:40

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 23-01-23

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Annwen Hughes (Cadeirydd), Edgar Owen a John Brynmor Hughes**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Ms M A G Davies (Preswylydd Lleol) a Mr Simon Bromley (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Bona Pizza, 23, Ffordd Caergybi, Bangor**

**Eraill a wahoddwyd:**

Mr Salim Hamdane (ymgeisydd)
Ms Gilly Harradence (cynrychiolydd yr ymgeisydd)
Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)
Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Lleol)
Cyng. R Medwyn Hughes (Aelod Lleol)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Amlygodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd yr Aelodau Lleol wedi cyflwyno sylwadau, ond yn awyddus i annerch yr Is-bwyllgor os byddai'r holl bartïon yn derbyn hynny.

Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd eu bod yn derbyn anerchiad yr Aelodau Lleol, ond yn dymuno nodi bod amserlen bendant wedi ei gosod ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer siop bwyd poeth i'w gario allan yn gwerthu pizza, kebabs, byrgyrs a sglodion; y cais yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â darparu lluniaeth hwyr yn y nos ac oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod gwrthwynebiadau i'r cais wedi eu derbyn gan aelodau o'r cyhoedd ar sail niwsans cyhoeddus, yn benodol mewn perthynas tebygol mewn sŵn yn hwyr yn y nos gan gwsmeriaid, yn ogystal â niwsans arogleuon. Nodwyd hefyd bod deiseb wedi ei derbyn yn cyfeirio at bryderon mewn perthynas ar Amcanion Trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus a Diogelwch y Cyhoedd. Amlygwyd bod Heddlu Gogledd Cymru yn argymell amodau TCC i'w cynnwys ar y drwydded ynghyd a sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant mewn perthynas â holl agweddau'r Ddeddf Trwyddedu. Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân wrthwynebiad i'r cais

Argymhellwyd i'r Pwyllgor ganiatáu'r cais yn unol â sylwadau'r Heddlu a gofynion Deddf Drwyddedu 2003.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r 'angen' i'r eiddo fod yn agored hyd 3:30am, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod ardal Bangor Uchaf yn ardal drwyddedig hwyr - byddai'r eiddo yma yn cyfateb i oriau trwyddedig dau eiddo pryd ar glud arall yn yr ardal.

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd:

- Ei bod yn sicrhau bod gan y ddau ymgeisydd brofiad helaeth o weithio yn y diwydiant bwyd (cyfnod o 25 mlynedd)
- Bod oriau agor bwriededig yn cyfateb i oriau 2 eiddo arall yn yr un ardal ynghyd a siop gyfleus oedd yn agor 24 awr
- Bod gofyn am hanner awr ychwanegol ar nos Lun a Mercher gan mai rhain yw prif nosweithiau allan y myfyrwyr a'u bod yn dymuno manteisio ar hyn
- Bod Stryd Albert cryn bellter o'r eiddo ac felly ni fydd yn cael effaith uniongyrchol gan sŵn ac arogleuon bwyd
- Bod cyfeiriad at wydrau ar y pafin yn gamarweiniol - ni fydd gwydr yn cael ei ddefnyddio gan yr ymgeiswyr - dim ond caniau diod
- Bod yr ymgeiswyr yn ecogyfeillgar - am osgoi defnyddio hambyrddau polystyren
- Ni fydd cynnydd mewn sŵn - bydd y sŵn yn cael ei wasgaru o'r siopau presennol - hynny yw, dim sŵn ychwanegol

**Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Lleol)**

- Bod agor tan 3:30am yn afresymol, yn enwedig ar nos Lun
- Bod Bangor Uchaf yn dueddol o gau lawr o gwmpas 1:00am ac felly pam bod angen i'r eiddo yma agor yn llawer hwyrach?
- Pryder y gall greu 'marchnad newydd' gyda phobl yn teithio o bell i gael bwyd am oriau man y bore
- Pryder am gynnydd mewn parcio a sŵn
- Bod Albert Street yn cefnu ar yr eiddo

**Cyng. Medwyn Hughes**

- Derbyn bydd y sŵn yn cael ei wasgaru, ond nid yw hyn yn gwneud yr ardal yn llai distaw
- Er bod mesurau wedi eu cynnwys ar gyfer gwaharddiadau, sut bydd y rhain yn cael eu monitro? A yw'r Heddlu yn monitro'r sefyllfa?
- Angen ystyried effaith niwsans cyhoeddus, sŵn, sbwriel ac arogleuon ar drigolion lleol

**Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)**

- Wedi cynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd sydd wedi cytuno i osod TCC
- Dim cwynion o'r safle na thystiolaeth i wrthwynebu'r cais

Mewn ymateb i gwestiwn gan un o Aelodau'r Is-bwyllgor am hanes o drwbl ym Mangor Uchaf ar ôl hanner nos, nodwyd nad oedd llawer o gwynion wedi dod i law. Gyda'r tafarnau yn cau am 1:00am nid oedd cwynion wedi eu derbyn am y llefydd bwyta nac o drosedd ac anrhefn.

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi eu hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu;

- Bod y cais yn un am drwydded lluniaeth hwyr a bod busnesau tebyg yn yr ardal eisoes wedi derbyn trwydded lluniaeth hwyr
- Derbyn bod potensial o greu niwsans sŵn ond amodau wedi eu gosod
- Yr atodlen weithredol yn rhoi addewid bod yr ymgeiswyr yn cadw at yr amodau, ond bod modd i unrhyw barti gyflwyno cais i adolygu'r drwydded os bydd problemau yn codi o'r eiddo
- Nad oedd tystiolaeth benodol o'r eiddo gan yr Uned Trwyddedu yn awgrymu bod y cais yn tanseilio'r amcanion trwyddedu

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi eu hachos, nododd cynrychiolydd yr ymgeiswyr, eu bod yn unigolion profiadol ac yn gyfarwydd gyda gweithio ym Mangor Uchaf. Ategwyd eu bod yn rhedeg busnes effeithiol ac yn barod i gadw at amodau; eu bod yn ecogyfeillgar ac nad oeddynt eisiau creu unrhyw ddrwgdeimlad.

c) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd sylwadau ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Rhoddwyd y drwydded fel a ganlyn:

**Oriau agor**
**Dydd Sul 16:00 - 02:30**
**Dydd Llun 16:00 - 03:00**
**Dydd Mawrth 16:00 - 02:30**
**Dydd Mercher 16:00 - 03:00**
**Dydd Iau 16:00 - 02:30**
**Dydd Gwener 16:00 - 03:30**
**Dydd Sadwrn 16:00 - 03:30**

**Lluniaeth Hwyr Yn Y Nos: Ar ac oddi ar yr eiddo.**
**Dydd Sul 16:00 - 02:30**
**Dydd Llun 16:00 - 03:00**
**Dydd Mawrth 16:00 - 02:30**
**Dydd Mercher 16:00 - 03:00**
**Dydd Iau 16:00 - 02:30**
**Dydd Gwener 16:00 - 03:30**
**Dydd Sadwrn 16:00 - 03:30**

**Ymgorffori'r materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded.**

**Ymgorffori'r amodau a argymhellwyd gan yr Heddlu fel amodau i'r drwydded.**

**Rhesymau**

Yng nghyd-destun **Trosedd ac Anhrefn** ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o broblemau mewn perthynas â'r eiddo. Cyflwynwyd sylwadau gan yr Heddlu yn argymell amodau, a cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn hapus iddynt gael eu cynnwys fel amodau ar y drwydded. Roedd yr Is-bwyllgor yn pwysleisio pwysigrwydd cadw at amodau'r Heddlu a'r angen i gadw recordiadau teledu cylch cyfyng am oleiaf mis.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus,** roedd yr Is-bwyllgor yn nodi ac yn cydnabod y pryderon a gyflwynwyd yn y sylwadau ysgrifenedig ac a fynegwyd yn y gwrandawiad. Bwriad y cais serch hynny oedd dod ag amseroedd agor yr eiddo i gyfateb gydag oriau agor eiddo cyffelyb cyfagos (er ychydig o amrywiaeth mewn perthynas â nos Lun a Mercher, nid oedd yn arwyddocaol ym marn yr Is-bwyllgor). Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth fod problemau yn tarddu o'r eiddo, na thystiolaeth i awgrymu y byddai caniatáu'r cais yn arwain at broblemau. Fel y nodwyd yn ystod y gwrandawiad, pe bai problemau yn codi, roedd y ddeddfwriaeth yn caniatáu gwneud cais i adolygu'r drwydded.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 14:55

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 23-11-22

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Annwen Hughes (Cadeirydd), Rheinallt Puw ac Arwyn Herald Roberts**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Menna Baines (Aelod Lleol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – ELEVENSES DISTILLERY**

**Eraill a wahoddwyd:**

Mr Jake Davies (ymgeisydd)
Mr Simon Bromley (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Elevenses Distillery Ltd, Neuadd y Faenol, Parc y Faenol, Gwynedd ar gyfer distyllfa fach deuluol. Gwnaed y cais mewn perthynas â chwarae cerddoriaeth fyw a gwerthiant alcohol ar ac oddi ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd na dderbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cais ond bod Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Gwynedd) wedi cynnig amodau / sylwadau. Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn argymell amodau TCC i'w cynnwys ar y drwydded ynghyd a sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant mewn perthynas â holl agweddau'r Ddeddf Trwyddedu. Roedd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn amlygu pryder ynglŷn â diffyg gwybodaeth am amlder cynnal digwyddiadau ac am gynlluniau atal niwsans cyhoeddus.

Cadarnhawyd bod yr ymgeisydd wedi nodi cyfyngiad o 5 digwyddiad y flwyddyn

Argymhellwyd i'r Pwyllgor ganiatáu'r cais yn unol â gofynion Deddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Ei fod yn hapus gydag amodau'r Heddlu a bod rhai eisoes yn weithredol
- Ei fod yn derbyn sylwadau Adran yr Amgylchedd
- Bod bwriad trefnu un noson agoriadol ym mis Ebrill 2023 - bydd y noson yn un drwy wahoddiad yn unig i bobl dros 18 oed (teulu a ffrindiau yn bennaf)
- Bydd toiledau symudol yn cael eu darparu ar gyfer y digwyddiadau
- Gyda chydweithrediad perchennog y Faenol, bydd modd darparu llefydd parcio digonol ar gyfer y digwyddiadau

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag os caniatáu'r drwydded bydd cyfle i gynnal mwy nag un digwyddiad ac felly angen trefniadau pendant yn eu lle, cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd trefniadau pendant ar gyfer ymwelwyr - toiledau a llefydd parcio digonol.

Ategodd y Rheolwr Trwyddedu bod gohebu clir wedi bod gyda'r ymgeisydd yn ystod y broses o gyflwyno cais a bod y cais yn un safonol. Bydd hawl cynnal hyd at 5 digwyddiad y flwyddyn mewn adeilad 'digwyddiadau' drws nesaf i'r ddistyllfa..

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref.

Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau.

**PENDERFYNWYD**

- **Caniatáu y cais diwygiedig**
- **Ymgorffori'r materion oedd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded**
- **Ymgorffori fel amodau'r drwydded, yr amodau TCC a argymhellwyd gan Heddlu Gogledd Cymru**

Rhesymau

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r sylwadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Roeddynt yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi derbyn cyfarwyddyd a chyngor y ddau sefydliad ac wedi ymateb a gweithredu yn unol â'r argymhellion a gyflwynwyd.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:45 a daeth i ben am 15:10